

Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb – Rhan 1

Teitl y polisi a'i ddiben (amlinelliad cryno):	<p>Darparu cynllun effeithlonrwydd ynni a tlodi tanwydd Cymru gyfan a arweinir gan alw i olynu <i>Nyth Cartrefi Clyd</i>.</p> <p>Prif ddiben y cynllun yw lleihau effaith tlodi tanwydd ar aelwydydd yng Nghymru ac, i'r graddau sy'n rhesymol ymarferol, dileu tlodi tanwydd. Mae yna amcanion economaidd hefyd i greu swyddi gwyrdd a chyfleoedd busnes ar gyfer pobl Cymru, yn ogystal ag amcanion amgylcheddol i leihau allyriadau nwyon tŷ gwyrdd yn y sector domestig.</p>
Enw'r Swyddog:	Paul Moyle
Adran:	Yr Amgylchedd a Materion Gwledig
Dyddiad:	Gorffennaf 2017
Llofnod:	<i>P Moyle</i>

1. Rhowch ddisgrifiad cryno o'r polisi/penderfyniad.

Mae gan Lywodraeth Cymru rwymedigaeth statudol i ddileu tlodi tanwydd, i'r graddau sy'n rhesymol ymarferol, ar bob aelwyd yng Nghymru erbyn 2018. Mae gennym bwerau cyfyngedig i fynd i'r afael ag incwm isel a phrisiau ynni, sy'n golygu bod dileu tlodi tanwydd yn her wirioneddol, ond gallwn wneud gwahaniaeth sylweddol trwy wella effeithlonrwydd ynni cartrefi yng Nghymru.

Mae gan Gymru rai o'r stoc adeiladu hynaf a lleiaf effeithlon o ran ynni yn Ewrop. Mae'r ffaith fod cynifer o adeiladau hŷn yng Nghymru wedi gadael gwaddol sylweddol o nodweddion aneffeithlon o ran ynni. Felly, mae angen mwy o ynni i gadw ein cartrefi yn gynnes o'i gymharu ag ardaloedd eraill o Ewrop, sy'n arwain at filiau ynni uwch. Gwella effeithlonrwydd ynni cartrefi yw'r ffordd fwyaf cynaliadwy o leihau biliau ynni yn yr hirdymor, gan sicrhau bod aelwydydd yn gallu cadw'n gynnes am gost fwy fforddiadwy.

Mae Strategaeth Tlodi Tanwydd 2010 yn nodi ein camau gweithredu arfaethedig i leihau nifer yr aelwydydd yng Nghymru sy'n byw mewn tlodi tanwydd. Mae'r camau allweddol yn cynnwys:

- Darparu cynllun tlodi tanwydd Cymru gyfan a arweinir gan alw ar gyfer aelwydydd sydd â'r angen mwyaf ac sy'n byw mewn cartrefi mwyaf aneffeithlon o ran ynni, wedi'i ategu gan fuddsoddiad mewn ardaloedd penodol.
- Darparu gwasanaethau cyngor a chymorth wedi'u cydgysylltu'n dda i sicrhau bod pob deiliad tŷ yng Nghymru yn gallu cael gafael ar gymorth i leihau ei filiau tanwydd, manteisio'n llawn ar ei incwm, gwella perfformiad ynni ei gartref a lleihau'r risg o wynebu tlodi tanwydd.

Rydym wrthi'n gwneud hyn yn effeithiol ar hyn o bryd trwy ein rhaglen effeithlonrwydd ynni a thlodi tanwydd, *Cartrefi Clyd Llywodraeth Cymru*, sy'n cynnwys cynllun *Nyth* a arweinir gan alw, a chynllun *Arbed* sy'n seiliedig ar ardaloedd penodol.

Gan fod contract y cynllun *Nyth* presennol yn dod i ben ym mis Mawrth 2018, rydym yn cynnal Aseiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb yn ymwneud â chynllun effeithlonrwydd ynni a thlodi tanwydd a arweinir gan alw i olynu *Nyth* ym mis Ebrill 2018. Nod y cynllun yw sicrhau bod aelwydydd yng Nghymru yn gallu cyrchu ystod o gyngor a chymorth diduedd a di-dâl i'w helpu i leihau eu biliau ynni a chadw'n gynnes am gost fwy fforddiadwy. Mae'r cymorth hwn yn cynnwys atgyfeiriad ar gyfer pecyn o welliannau ynni cartref ar gyfer rhai aelwydydd incwm isel, agored i niwed ac aneffeithlon o ran ynni, yn amodol ar feini prawf cymhwysedd.

Defnyddiwyd tystiolaeth o nifer o adroddiadau ymchwil gymdeithasol¹, ynghyd â gwersi a ddysgwyd o'r cynllun presennol, i ddatblygu cynigion ar gyfer y cynllun newydd, gan gynnwys meini prawf cymhwysedd diwygiedig i wella'r broses dargedu, a darparu cyngor i aelwydydd cymwys yn eu cartrefi eu hunain. Rhoddir blaenoriaeth

¹ <https://gov.wales/statistics-and-research/understanding-characteristics-low-income-households-risk-living-cold-homes/?skip=1&lang=cy>

i gefnogi aelwydydd sydd â'r angen mwyaf (h.y. aelwydydd incwm isel, agored i niwed ac aneffeithlon o ran ynni).

2. Mae dyletswydd gyfreithiol arnom i ymgysylltu â phobl â nodweddion gwarchoddedig o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010 (gweler Atodiad A o'r canllawiau ar yr Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb) y nodir eu bod yn berthnasol i'r polisi. Pa gamau a roddwyd ar waith gennych i ymgysylltu â rhanddeiliaid, yn fewnol ac yn allanol?

Ymgysylltiad mewnol

Mae effeithlonrwydd ynni a thlodi tanwydd yn faterion trawsbynciol, a gall gweithredu yn y meysydd hyn arwain at fanteision lluosog ledled y nodau a bennir yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol. O ganlyniad, buom yn cydweithio'n agos ledled y llywodraeth, a byddwn yn parhau i wneud hynny. Ymgynghorwyd yn fewnol â'r adrannau canlynol: Adnoddau Naturiol, Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, Cyllid a Gwasanaethau Corfforaethol, Llywodraeth Leol a Chymunedau, ac Addysg a Sgiliau.

Ymgysylltiad allanol

Cynhaliwyd ymgynghoriad allanol rhwng 27 Gorffennaf ac 19 Hydref 2016 yn gofyn am safbwyntiau rhanddeiliaid ar gynigion Llywodraeth Cymru ar gyfer cynllun tldi tanwydd newydd a arweinir gan alw. Gofynnodd yr ymgynghoriad am sylwadau ar ddyllunio a chyflwyno'r cynllun newydd. Cyhoeddwyd ymateb Llywodraeth Cymru i'r ymgynghoriad ar 23 Rhagfyr 2016.

Ymgynghorwyd â nifer fawr o rhanddeiliaid, gan gynnwys grwpiau sy'n cynrychioli pobl â nodweddion gwarchoddedig. Roedd y grwpiau yr ymgynghorwyd â nhw yn cynnwys y canlynol:

- Advice Services Alliance
- Advice UK
- Age Connects
- Age Cymru
- Barnardos
- Sefydliad Bevan
- Gofal a Thrwsio Cymru
- Ymddiriedolaeth Adfywio'r Meysydd Glo
- Coed Cymru
- Cartrefi Cymunedol Cymru
- Fairpoint
- Partneriaeth Gwres Fforddiadwy Sir y Fflint
- Shelter Cymru
- Sefydliad Joseph Rowntree
- Kin Cymru
- Macmillan Cancer Support
- MIND Cymru
- National Energy Action (NEA) Cymru

- Un Llais Cymru
- Oxfam Cymru
- Penny Smart
- Shelter Cymru
- Tenovus
- Ymddiriedolaeth Trussell
- Wise Kids
- Plant yng Nghymru
- Comisiynydd Plant Cymru
- Cyngor ar Bopeth Cymru
- Cartrefi Cymunedol Cymru
- Anabledd Cymru
- Y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol yng Nghymru
- Partneriaeth Gwres Fforddiadwy Sir y Fflint
- Shelter Cymru
- Tai Gogledd Cymru
- Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru
- Iechyd Cyhoeddus Cymru
- Cynrychiolydd y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol yng Nghymru
- Royal National Institute of Blind People
- Asiantaeth Gwella'r Gwasanaethau Cymdeithasol
- Comisiynydd Dyfodol Cynaliadwy
- Welfare Rights Advisers Cymru
- Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru
- Comisiynydd y Gymraeg
- Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru
- Ffederasiwn Tenantiaid Cymru

Hefyd, cynhaliwyd nifer o ddigwyddiadau ymgysylltu â rhanddeiliaid amrywiol yn ystod y cyfnod ymgynghori er mwyn gofyn am adborth ar elfennau allweddol o'r ymgynghoriad.

Derbyniwyd cyfanswm o 44 o ymatebion i'r ymgynghoriad gan amrywiaeth eang o unigolion a sefydliadau. Mae crynodeb llawn o ymatebion i'r ymgynghoriad wedi'i gwblhau.

<https://beta.llyw.cymru/sites/default/files/consultations/2018-01/170110-responses-cy.pdf>

Nid yw'r broses ymgysylltu wedi nodi unrhyw effeithiau negyddol arwyddocaol ar bobl â nodweddion gwarchoddedig yn deillio o'r cynllun hwn. Rhagwelir y bydd yn cael effeithiau cadarnhaol.

Yn ogystal, mae argymhellion '*Gwerthusiad o Gynllun Effeithlonrwydd Ynni Nyth*' mewn perthynas â grwpiau â nodweddion gwarchoddedig eisoes wedi'u cynnwys yn y cynllun presennol, a bydd y cynllun newydd yn adeiladu arnynt. Mae'r camau gweithredu yn cynnwys:

- Camau gweithredu penodol ychwanegol i ddileu rhwystrau mynediad i bobl nad ydynt yn meddu ar sianeli cyfathrebu prif ffrwd. Roedd y camau hyn yn

canolbwyntio ar ymgysylltiad penodol trwy sefydliadau partner penodol a defnyddio gwybodaeth mewn fformatau hawdd ei darllen, braille, sain, print bras a digidol.

- Camau gweithredu i ymgysylltu â grwpiau cymunedol mewn ardaloedd gwledig, ac â grwpiau eraill gan gynnwys cymunedau pobl dduon ac Asiaidd a lleiafrifoedd ethnig (BAME).
- Datblygu cysylltiadau â Byrddau Iechyd Lleol a phartneriaid yn y sector iechyd.

3. Rhaid i chi seilio eich penderfyniadau ar dystiolaeth gadarn. Pa sail dystiolaeth a ddefnyddiwyd gennych? Rhestrwch ffynhonnell y dystiolaeth e.e. Arolwg Cenedlaethol Cymru. A ystyriwch chi fod y dystiolaeth yn gryf, yn foddhaol neu'n wan ac a oes yna fylchau yn y dystiolaeth?

Mae ein cynigion yn ymwneud â chyflwyno a dylunio'r cynllun newydd wedi ystyried tystiolaeth amrywiol, sy'n cael ei chrynhoi isod.

[Amcangyfrifon o Lefelau Tlodi Tanwydd 2012-2016, Sefydliad Ymchwil Adeiladu](#)

Mae ystadegau tlodi tanwydd diweddaraf Llywodraeth Cymru yn seiliedig ar amcangyfrifon enghreifftiol ar gyfer 2012 – 2016 a luniwyd gan y Sefydliad Ymchwil Adeiladu. Cyhoeddwyd adroddiad y Sefydliad Ymchwil Adeiladu, “*Cynhyrchu Amcangyfrifon o Lefelau Tlodi Tanwydd yng Nghymru: 2012-2016*” ar 11 Gorffennaf 2016. Mae'r adroddiad yn amcangyfrif lefelau tlodi tanwydd a thlodi tanwydd difrifol ar bob aelwyd, tlodi tanwydd ar aelwydydd agored i niwed a thlodi tanwydd mewn tai cymdeithasol rhwng 2012 a 2016. Hefyd, mae'n amcangyfrif effaith gwelliannau effeithlonrwydd ynni ar lefelau tlodi tanwydd.

Mae'r canfyddiadau wedi'u hystyried wrth benderfynu a ddylai Llywodraeth Cymru barhau i gynnig cynllun tlodi tanwydd a arweinir gan alw. Er bod y gwaith ymchwil yn dangos bod yr amcangyfrif o nifer yr aelwydydd sy'n wynebu tlodi tanwydd wedi lleihau ers 2012, amcangyfrifir bod tua 23 y cant o'r holl aelwydydd a 24 y cant o aelwydydd agored i niwed² yng Nghymru yn wynebu tlodi tanwydd yn 2016.

Mae hyn yn cefnogi'r achos dros barhau i weithredu ym maes tlodi tanwydd, gan roi blaenoriaeth i helpu cartrefi incwm isel sy'n wynebu'r perygl mwyaf o fyw mewn cartrefi oer.

Hefyd, mae gwaith ymchwil y Sefydliad Ymchwil Adeiladu yn amlygu effaith gadarnhaol gwelliannau effeithlonrwydd ynni yn y cartref ar lefelau tlodi tanwydd. Mae hyn yn dangos bod cynllun Cymru gyfan sy'n cefnogi cartrefi incwm isel trwy ddarpariaeth o'r fath, ochr yn ochr â phecyn cynhwysfawr o gyngor a chymorth arall, yn parhau i fod yn ffordd hynod effeithiol o leihau lefelau tlodi tanwydd.

² Mae aelwyd agored i niwed yn cael ei diffinio fel aelwyd sydd â rhywun 60 oed neu drosodd, aelwyd â phlentyn/person ifanc o dan 25 oed, neu aelwyd sy'n cynnwys unigolyn ag unrhyw gyflwr sy'n cyfyngu ar ei fywyd, neu unigolyn anabl.

Gwneud Gwahaniaeth: Buddsoddi mewn Iechyd a Llesiant Cynaliadwy i Bobl Cymru, Iechyd Cyhoeddus Cymru

Mae'r adroddiad hwn yn cynnig tystiolaeth, ymchwil a barn arbenigol mewn perthynas ag atal afiechyd a lleihau anghydraddoldebau er mwyn cyflawni economi gynaliadwy, cymdeithas ffyniannus a'r lefelau iechyd a llesiant gorau posibl i'r genhedlaeth hon ac i genedlaethau'r dyfodol yng Nghymru.

Mae'r adroddiad yn dadlau y byddai buddsoddi mewn atal iechyd gwael yn arwain at ganlyniadau iach ar gyfer y boblogaeth a manteision pellgyrhaeddol ar bob agwedd ar gymdeithas a bywydau pobl. Mae'n cynnwys nifer o ganfyddiadau a datganiadau pwysig yn ymwneud ag inswleiddio, effeithlonrwydd ynni, gwresogi ac amodau tai:

- Gallai buddsoddi mewn dulliau inswleiddio a gwresogi er mwyn ymdrin â thair oer a llaith sicrhau arbedion o bron i £35 miliwn i'r GIG yng Nghymru;
- Mae babanod sy'n byw mewn cartrefi lle ceir tlodi tanwydd (oer a llaith) yn fwy tebygol (o 30%) o gael eu derbyn i'r ysbyty neu wasanaethau gofal sylfaenol;
- Mae ansawdd tai gwael, gan gynnwys materion megis llwydni, gwres gwael ac effeithlonrwydd ynni gwael, yn gysylltiedig ag afiechyd corfforol ac afiechyd meddwl. Mae'n effeithio ar yr unigolyn, yn ogystal â chostau i'r unigolyn, i gymdeithas ac i'r GIG o ran y lefelau uwch o droseddu, diweithdra a chostau triniaeth cysylltiedig.
- Mae buddsoddi i wella tai yn ffordd gost-effeithiol o atal afiechyd a lleihau anghydraddoldebau iechyd. Gallai arwain at lai o amser yn absennol o'r ysgol neu'r gwaith, mwy o ddefnydd o'r cartref at ddibenion astudio a hamdden, a gwell cydberthnasau rhwng aelodau'r cartref.

Deall Nodweddion Aelwydydd Incwm Isel sydd yn y Perygl Mwyaf o Fyw mewn Cartrefi Oer, Canolfan Ynni Cynaliadwy (CSE)

Yn 2015, comisiynodd Llywodraeth Cymru waith ymchwil annibynnol er mwyn helpu'r gwaith o dargedu unrhyw gynllun effeithlonrwydd ynni a thlodi tanwydd a arweinir gan alw yn y dyfodol.

Roedd y gwaith ymchwil yn ystyried pa gartrefi incwm isel sydd yn y perygl mwyaf o fyw mewn cartrefi oer ac felly'n debygol o fod â'r angen mwyaf am ymyrraeth effeithlonrwydd ynni yn y cartref.

Roedd hyn yn dylanwadu ar argymhellion y dylai'r cynllun dargedu aelwydydd ag incwm cymharol isel ac o leiaf un o'r nodweddion ychwanegol canlynol sy'n eu gwneud yn agored i niwed:

- Oedolion hŷn
- Plant (plant o dan 5 oed yn benodol)
- Pobl anabl
- Pobl â chyflyrau iechyd cyfyngus hirdymor (pobl â chlefydau anadlol neu gylchredol a phobl â chyflyrau iechyd meddwl).

Mae holl argymhellion yr adroddiad wedi'u hystyried yn llawn wrth benderfynu pa aelwydydd a ddylai fod yn gymwys am gymorth.

Gwerthusiad o Gynllun Effeithlonrwydd Ynni Nyth - Miller Research (UK) Ltd

Yn 2014, comisiynodd Llywodraeth Cymru werthusiad annibynnol o gynllun Nyth er mwyn asesu a oedd y cynllun wedi cyflawni ei amcanion. Roedd y gwerthusiad yn ystyried i ba raddau roedd y cynllun wedi cyrraedd aelwydydd â'r angen mwyaf, wedi sicrhau arbedion ynni ar gyfer deiliaid tai ac wedi darparu gwerth am arian. Cyhoeddwyd yr adroddiad llawn ym mis Mawrth 2015.

Mae'r canfyddiadau wedi'u defnyddio wrth ddatblygu'r cynllun newydd, gan adeiladu ar unrhyw lwyddiannau a gwella unrhyw wendidau.

Ymgynghoriad (27 Gorffennaf – 19 Hydref 2016)

Cynhaliwyd ymgynghoriadau mewnol ac allanol rhwng 27 Gorffennaf ac 19 Hydref 2016. Hefyd, cynhaliwyd digwyddiad gweithdy i randdeiliaid yn ystod y cyfnod ymgynghori. Mae'r holl ymatebion wedi'u hystyried wrth ddatblygu cynigion terfynol. Mae hyn yn cynnwys diwygio cymhwysedd yn dilyn pryderon cychwynnol gan randdeiliaid yn ymwneud â bylchau mewn cymorth ar gyfer rhai grwpiau sy'n wynebu tlodi tanwydd. Mae crynodeb llawn o'r ymatebion ar gael yn

<https://beta.llyw.cymru/sites/default/files/consultations/2018-01/170110-responses-cy.pdf>.

Prosiect Cysylltu Data Tlodi Tanwydd

Rydym yn cyd-ariannu ymchwil SAIL (Cyswllt Diogel Gwybodaeth Ddienw) sy'n ystyried defnyddio data gweinyddol cysylltiedig i werthuso effeithiau ein cynlluniau effeithlonrwydd ynni a thlodi tanwydd ar ganlyniadau iechyd. Mae'r prosiect yn defnyddio cronfa ddata SAIL, sy'n dwyn ynghyd yn ddiogel yr ystod ehangaf bosibl o ddata dienw a gesglir yn arferol at ddibenion ymchwil a gwerthuso.

Aethom ati i gyhoeddi adroddiad Canfyddiadau sy'n Dod i'r Amlwg a oedd yn canolbwyntio ar ganlyniadau iechyd derbynwyr *Nyth* ym mis Hydref 2016, a'r canfyddiadau diweddaraf ym mis Ebrill 2017.

Dyma ganfyddiadau allweddol yr adroddiad diweddaraf:

- Effaith gadarnhaol arwyddocaol ar iechyd anadlol ymysg derbynwyr mesurau Nyth Cartref Clyd, a'r un patrwm arwyddocaol wrth ystyried asthma yn benodol.
- Mae'r data yn awgrymu bod 'effaith amddiffynnol' ar gyfer heintiau (gyda chynnydd llai yn nifer gyfartalog y presgripsiynau ar gyfer heintiau ar gyfer y rhai sy'n derbyn mesurau o'i gymharu â'r grŵp cymharu).
- Mae'r data yn awgrymu bod effaith gadarnhaol ar dderbyniadau brys i'r ysbyty ar gyfer cyflyrau cardiofasgwlaidd ac anadlol.

Bydd adroddiadau'r dyfodol yn cynnwys effeithiau mwy hirdymor *Nyth*, *Arbed* ac effeithiau cyrhaeddiad addysgol.

Effaith

4.1 A ydych chi'n credu y bydd y polisi / penderfyniad / arfer hwn yn cael effaith gadarnhaol neu negyddol ar bobl oherwydd eu hoed?

Mae ansawdd tai gwael, gan gynnwys materion megis llwydni, gwres gwael ac effeithlonrwydd ynni gwael, yn gysylltiedig ag afiechyd corfforol ac afiechyd meddwl. Mae'n effeithio ar yr unigolyn, yn ogystal â chostau i'r unigolyn, i gymdeithas ac i'r GIG o ran y lefelau uwch o droseddu, diweithdra a chostau triniaeth cysylltiedig.³

Mae buddsoddi i wella tai yn ffordd gost-ffeithiol o atal afiechyd a lleihau anghydraddoldebau iechyd. Gallai arwain at lai o amser yn absennol o'r ysgol neu'r gwaith, mwy o ddefnydd o'r cartref at ddibenion astudio a hamdden, a gwell cydberthnasau rhwng aelodau'r cartref.⁴

Mae'r cynllun arfaethedig yn darparu cymorth mewn dau faes allweddol ar gyfer aelwydydd: - A) cyngor ac atgyfeiriadau ar gyfer aelwydydd o bob math gyda'r nod o wella effeithlonrwydd ynni a dŵr a gwneud y mwyaf o incwm; a B) darparu pecyn o fesurau gwella ynni cartref di-dâl i gartrefi incwm isel, yn amodol ar feini prawf cymhwysedd.

Gan fod y rhan fwyaf o'r manteision sy'n deillio o'r cymorth yn berthnasol i bob aelwyd, bydd y sylwadau isod yn cynnwys elfen o ddyblygu. Yn fyr, mae'r rhain yn ymwneud â'r gallu i gadw'n gynnes am gost fwy fforddiadwy, mwy o incwm i'w wario ar bethau eraill a manteision cysylltiedig o safbwynt iechyd, addysg, llesiant ac ati.

Rydym wedi llunio crynodeb byr o rai o'r prif fanteision a thystiolaeth ar gyfer pob grŵp.

Oed	Cadarnhaol	Negyddol	Dim / Dibwys	Rhesymau dros eich penderfyniad (yn cynnwys tystiolaeth) / Effaith bosibl?
Pobl iau <i>(Plant a phobl ifanc hyd at 18 oed)</i>	x			Amcangyfrifir bod 1.6 miliwn o blant yn y DU yn byw mewn tlodi tanwydd (ACE, 2013). Mae plant sy'n byw ar rai aelwydydd penodol mewn perygl penodol o fyw mewn cartrefi oer, sef teuluoedd un rhiant, cartrefi incwm isel, cartrefi mewn ardaloedd gwledig, cartrefi dan arweiniad rhiant sy'n dod o gefndir du neu leiafrif ethnig, a chartrefi o dan arweiniad rhiant sydd â chyflwr iechyd hirdymor (National Children's Bureau, 2012). Mae aelodau aelwydydd

³ Gwneud Gwahaniaeth: Buddsoddi mewn Iechyd a Llesiant Cynaliadwy i Bobl Cymru, Iechyd Cyhoeddus Cymru, 2016

⁴ Gweler uchod.

			<p>sydd â phlant, yn enwedig plant o dan bump oed, yn treulio mwy o amser na'r cyfartaledd yn y cartref, gan gynyddu eu cysylltiad ag effeithiau iechyd niweidiol byw mewn cartrefi oer.</p> <p>Mae babanod sy'n byw mewn cartrefi lle ceir tlodi tanwydd (oer a llaith) yn fwy tebygol (o 30%) o gael eu derbyn i'r ysbyty neu wasanaethau gofal sylfaenol (Iechyd Cyhoeddus Cymru, 2016).</p> <p>Bydd y rhai sy'n bodloni'r meini prawf cymhwysedd yn derbyn pecyn o fesurau di-dâl a fydd yn gwella effeithlonrwydd ynni eu cartrefi, gan eu galluogi i wresogi eu cartrefi a chadw'n gynnes am gost fwy fforddiadwy.</p> <p>Mae budd-daliadau perthnasol sy'n dibynnu ar brawf modd ar gyfer aelwydydd â phlant yn cynnwys:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Credyd Treth Plant; a • Lwfans Ceisio Gwaith cysylltiedig ag incwm, a chyfrifoldeb am blant (e.e. yn derbyn Budd-dal Plant) <p>Yn ogystal, bydd pob aelwyd yn gallu derbyn cyngor am ddim ar faterion fel arbed ynni, dŵr a gwneud y mwyaf o incwm.</p> <p>Yn ôl adroddiad diweddar gan Iechyd Cyhoeddus Cymru, mae buddsoddi mewn gwelliannau effeithlonrwydd ynni yn ffordd gost-effeithiol o atal afiechyd a lleihau anghydraddoldebau iechyd. Gallai arwain at lai o amser yn absennol o'r ysgol neu'r gwaith, mwy o ddefnydd</p>
--	--	--	--

			<p>o'r cartref at ddibenion astudio a hamdden, a gwell cydberthnasau rhwng aelodau'r cartref.</p> <p>Mae Asesiad o'r Effaith ar Hawliau Plant wedi'i gwblhau hefyd.</p>
Pobl 18- 50 oed	x		<p>Bwriedir y cynllun newydd ar gyfer cartrefi incwm isel sydd â nodweddion ychwanegol sy'n eu gwneud yn agored i niwed, felly bydd yn fanteisiol i aelwydydd â phobl o bob oed.</p> <p>Bydd y rhai sy'n bodloni'r meini prawf cymhwysedd yn derbyn pecyn o fesurau di-dâl a fydd yn gwella effeithlonrwydd ynni eu cartrefi, gan eu galluogi i wresogi eu cartrefi a chadw'n gynnes am gost fwy fforddiadwy.</p> <p>Yn ogystal, bydd pob aelwyd yn gallu derbyn cyngor am ddim ar faterion fel arbed ynni, dŵr a gwneud y mwyaf o incwm.</p>
Pobl hŷn (50+)	x		<p>Yn ôl adroddiad CSE, roedd 30 y cant o'r 240,000 o aelwydydd yng Nghymru yr amcangyfrifir eu bod ar incwm is na'r trothwy incwm isel yn cynnwys person hŷn (65 oed neu drosodd).</p> <p>Yn ogystal â bod yn fwy tebygol o fyw mewn cartrefi oer, mae pobl hŷn yn fwy tebygol o fod yn agored i niwed oherwydd effeithiau niweidiol byw mewn cartrefi oer. Roedd y rhan fwyaf o astudiaethau'r adolygiad o dystiolaeth yng nghyfarwyddyd NICE yn nodi bod mwy o bobl hŷn yn marw yn y gaeaf ac oherwydd tywydd oer (NICE 2015). Gwelir hyn yn glir gan y ffaith fod mwy o bobl hŷn yn marw yn y gaeaf yng Nghymru a Lloegr. Fel y nodwyd yng nghyfarwyddyd NICE, yn</p>

				<p>2013/14 roedd 51 y cant o'r rhai a fu farw oherwydd oerfel yn bobl 85 oed a hŷn, a 27 y cant yn bobl rhwng 75 ac 84 oed (NICE, 2015).</p> <p>Mae'r meini prawf cymhwysedd yn sicrhau bod aelwydydd sy'n derbyn budd-dal perthnasol sy'n dibynnu ar brawf modd yn gymwys ar gyfer pecyn o fesurau di-dâl a fydd yn gwella effeithlonrwydd ynni eu cartrefi, gan eu galluogi i wresogi eu cartrefi a chadw'n gynnes am gost fwy fforddiadwy. Hefyd, darperir cyngor yn y cartref lle bo hynny'n briodol.</p> <p>Mae budd-daliadau perthnasol sy'n dibynnu ar brawf modd ar gyfer aelwydydd â phobl hŷn yn cynnwys Credyd Pensiwn.</p> <p>Yn ogystal, bydd pob aelwyd yn gallu derbyn cyngor am ddim ar faterion fel arbed ynni, dŵr a gwneud y mwyaf o incwm.</p>
--	--	--	--	--

4.2 Oherwydd eu bod yn anabl?

Nam	Cadarnhaol	Negyddol	Dim / Dibwys	Rhesymau dros eich penderfyniad (yn cynnwys tystiolaeth) / Effaith bosibl?
Nam ar y golwg	x			<p>Bydd pob aelwyd yn gallu derbyn cyngor am ddim ar faterion fel arbed ynni, dŵr a gwneud y mwyaf o incwm, waeth a oes unigolyn ag anabledd ar yr aelwyd ai peidio.</p> <p>Hefyd, gall aelwydydd fod yn gymwys ar gyfer pecyn o fesurau di-dâl a fydd yn gwella effeithlonrwydd ynni eu cartrefi, gan eu galluogi i wresogi eu cartrefi a chadw'n gynnes am gost fwy fforddiadwy.</p> <p>Bydd y cynllun newydd yn adeiladu ar welliannau a</p>

				<p>sicrhawyd trwy'r cynllun presennol, gan gynnwys camau gweithredu penodol ychwanegol i ddileu rhwystrau mynediad i bobl nad ydynt yn meddu ar sianeli cyfathrebu prif ffrwd. Mae hyn wedi canolbwyntio ar ymgysylltiad penodol trwy sefydliadau partner penodol a defnyddio gwybodaeth mewn fformatau hawdd ei darllen, braille, sain, print bras a digidol.</p>
Nam ar y clyw	x			Fel uchod.
Anabledd corfforol				<p>Yn ôl adroddiad CSE, roedd 43 y cant o'r 240,000 o aelwydydd yng Nghymru yr amcangyfrifir eu bod ar incwm is na'r trothwy incwm isel yn cynnwys o leiaf un person ag anabledd neu salwch hirdymor.</p> <p>Hefyd, mae'r dystiolaeth yn awgrymu bod pobl sy'n treulio mwy o amser yn y cartref oherwydd cyflyrau cronig neu symudedd cyfyngedig yn gallu bod yn fwy agored i effeithiau negyddol tymheredd oer dan do.</p> <p>Ar sail y dystiolaeth yn Adroddiad CSE, mae cartrefi incwm isel â phobl anabl yn grŵp targed ar gyfer y cynllun newydd.</p> <p>Yn ogystal, bydd pob aelwyd yn gallu derbyn cyngor am ddim ar faterion fel arbed ynni, dŵr a gwneud y mwyaf o incwm, waeth a oes unigolyn ag anabledd ar yr aelwyd ai peidio.</p> <p>Yn ogystal, bydd aelwydydd cymwys yn derbyn pecyn o fesurau di-dâl a fydd yn gwella effeithlonrwydd ynni eu cartrefi, gan eu galluogi i wresogi eu cartrefi a chadw'n gynnes am gost fwy fforddiadwy.</p>
	x			

			<p>Mae budd-daliadau perthnasol sy'n dibynnu ar brawf modd ar gyfer aelwydydd â phobl anabl yn cynnwys:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Cymhorthdal Incwm sy'n cael ei dalu oherwydd salwch neu anabledd • Lwfans Cyflogaeth a Chymorth (Lwfans Anabledd Difrifol gynt) <p>Hefyd, bydd aelwydydd yn gymwys ar gyfer mesurau os ydynt yn derbyn incwm isel ac oes gan un o'r preswylwyr gyflwr iechyd cylchredol neu anadlol.</p> <p>Darperir cyngor yn y cartref hefyd lle bo hynny'n briodol.</p>
Anabledd dysgu	x		<p>Bydd pob aelwyd yn gallu derbyn cyngor am ddim ar faterion fel arbed ynni, dŵr a gwneud y mwyaf o incwm, waeth a oes unigolyn ag anabledd ar yr aelwyd ai peidio.</p> <p>Hefyd, bydd holl breswylwyr aelwydydd cymwys yn elwa ar effeithiau mesurau effeithlonrwydd ynni di-dâl, waeth a oes ganddynt anabledd ai peidio.</p>
Problem iechyd meddwl	x		<p>Fel uchod.</p> <p>Yn ogystal â threialu cynllun peilot cyflyrau iechyd i ymestyn cymhwysedd o dan y cynllun newydd i gartrefi incwm isel ag amodau iechyd penodol, byddwn yn ystyried y sylfaen dystiolaeth yn ymwneud ag iechyd meddwl er mwyn nodi pa gyflyrau iechyd meddwl penodol a ddylai fod yn gymwys ar gyfer mesurau effeithlonrwydd ynni di-dâl yn fwy hirdymor.</p>

Namau eraill	x			Fel uchod.
--------------	---	--	--	------------

4.3 Oherwydd eu rhyw (dyn neu fenyw)?

Rhyw	Cadarnhaol	Negyddol	Dim / Dibwys	Rhesymau dros eich penderfyniad (yn cynnwys tystiolaeth) / Effaith bosibl?
Gwryw			x	Mae'r cynllun yn berthnasol i'r naill ryw a'r llall i'r un graddau.
Benyw			x	Fel uchod.

4.4 Oherwydd eu bod yn drawsrywiol?

Trawsrywiol	Cadarnhaol	Negyddol	Dim / Dibwys	Rhesymau dros eich penderfyniad (yn cynnwys tystiolaeth) / Effaith bosibl?
			x	Mae'r cynllun hwn yn berthnasol i bawb i'r un graddau, waeth beth yw eu hunaniaeth o ran rhywedd.

4.5 Oherwydd eu priodas neu bartneriaeth sifil?

Priodas a Phartneriaeth Sifil	Cadarnhaol	Negyddol	Dim / Dibwys	Rhesymau dros eich penderfyniad (yn cynnwys tystiolaeth) / Effaith bosibl?
Priodas			x	Mae'r cynllun hwn yn berthnasol i bawb i'r un graddau, waeth a ydynt yn briod ai peidio.

Partneriaeth Sifil			x	Mae'r cynllun hwn yn berthnasol i bawb i'r un graddau, waeth a ydynt mewn partneriaeth sifil ai peidio.
--------------------	--	--	---	---

4.6 Oherwydd eu beichiogrwydd neu famolaeth?

Beichiogrwydd a Mamolaeth	Cadarnhaol	Negyddol	Dim / Dibwys	Rhesymau dros eich penderfyniad (yn cynnwys tystiolaeth) / Effaith bosibl?
Beichiogrwydd	x			<p>Mae'r dystiolaeth yn awgrymu bod pobl sy'n treulio llawer o amser gartref, gan gynnwys mamau beichiog yn ogystal â babanod a phlant ifanc, yn gallu bod yn agored i effeithiau negyddol byw mewn cartref oer.</p> <p>Bydd unrhyw aelwydydd sy'n derbyn cymhorthdal incwm, sydd ar gael i famau beichiog ac unig rieni â phlentyn, yn gymwys ar gyfer pecyn o fesurau effeithlonrwydd ynni di-dâl a fydd yn gwella effeithlonrwydd ynni eu cartref, gan eu galluogi i wresogi eu cartrefi a chadw'n gynnes am gost fwy fforddiadwy. Darperir cyngor yn y cartref hefyd lle</p>

				bo hynny'n briodol. Yn ogystal, bydd pob aelwyd yn gallu derbyn cyngor am ddim ar faterion fel arbed ynni, dŵr a gwneud y mwyaf o incwm.
Mamolaeth (y cyfnod ar ôl geni)	x			Fel uchod.

4.7 Oherwydd eu hil?

Hil	Cadarnhaol	Negyddol	Dim / Dibwys	Rhesymau dros eich penderfyniad (yn cynnwys tystiolaeth) / Effaith bosibl?
Pobl o leiafrif ethnig e.e. Asiaidd, Du			x	<p>Mae sawl adroddiad wedi awgrymu bod aelwydydd pobl dduon a lleiafrifoedd ethnig mewn mwy o berygl nag aelwydydd pobl wynion o fyw mewn cartref oer (CSE, 2016).</p> <p>Mae'r cynllun newydd wedi'i fwriadu ar gyfer cartrefi incwm isel, agored i niwed yng Nghymru waeth beth yw eu tarddiad ethnig. Mae'r un meini prawf cymhwysedd ar gyfer mesurau gwella yn berthnasol i aelwydydd o bob math.</p> <p>Mae'r cynllun wedi targedu gweithgarwch marchnata sy'n gweithio gyda grwpiau lleiafrifol gan gynnwys cymunedau pobl dduon ac Asiaidd a lleiafrifoedd ethnig.</p> <p>Yn ogystal, bydd pob aelwyd yn gallu derbyn cyngor am ddim ar faterion fel arbed ynni, dŵr a gwneud y mwyaf o incwm.</p>

Tarddiad Cenedlaethol (e.e. Cymreig, Seisnig)			x	Mae'r cynllun hwn yn berthnasol i'r un graddau i bob aelwyd.
Ceiswyr Lloches a Ffoaduriaid			x	Mae'r cynllun hwn yn berthnasol i'r un graddau i bob aelwyd..
Sipsiwn a Theithwyr			x	Bwriedir y cynllun ar gyfer cartrefi incwm isel, agored i niwed yng Nghymru. Mae'r un meini prawf cymhwysedd ar gyfer mesurau gwella yn berthnasol i aelwydydd o bob math, gan gynnwys carafanau; fodd bynnag, rhaid i'r garafán fod yn un sefydlog. Yn ogystal, bydd pob aelwyd yn gallu derbyn cyngor am ddim ar faterion fel arbed ynni, dŵr a gwneud y mwyaf o incwm.
Mudwyr			x	Bwriedir y cynllun ar gyfer cartrefi incwm isel, agored i niwed yng Nghymru. Mae'r un meini prawf cymhwysedd ar gyfer mesurau gwella yn berthnasol i aelwydydd o bob math. Yn ogystal, bydd pob aelwyd yn gallu derbyn cyngor am ddim ar faterion fel arbed ynni, dŵr a gwneud y mwyaf o incwm.

4.8 Oherwydd eu crefydd a'u cred neu ddiffyg cred?

Crefydd a chred neu ddiffyg cred	Cadarnhaol	Negyddol	Dim / Dibwys	Rhesymau dros eich penderfyniad (yn cynnwys tystiolaeth) / Effaith bosibl?
Gwahanol grwpiau crefyddol yn cynnwys Mwslimiaid, Iddewon, Cristnogion,			x	Bwriedir y cynllun ar gyfer cartrefi incwm isel, agored i niwed yng Nghymru. Mae'r un meini prawf cymhwysedd ar gyfer mesurau gwella yn berthnasol i aelwydydd o bob math.

Sikhiaid, Bwdhyddion, Hindŵiaid, Eraill (nodwch)				Yn ogystal, bydd pob aelwyd yn gallu derbyn cyngor am ddim ar faterion fel arbed ynni, dŵr a gwneud y mwyaf o incwm.
Cred e.e. Dyneiddwyr			x	Fel uchod.
Diffyg cred			x	Fel uchod.

4.9 Oherwydd eu cyfeiriadedd rhywiol?

Cyfeiriadedd Rhywiol	Cadarnhaol	Negyddol	Dim / Dibwys	Rhesymau dros eich penderfyniad (yn cynnwys tystiolaeth) / Effaith bosibl?
Dynion hoyw			x	Bwriedir y cynllun ar gyfer cartrefi incwm isel, agored i niwed yng Nghymru. Mae'r un meini prawf cymhwysedd ar gyfer mesurau gwella yn berthnasol i aelwydydd o bob math. Yn ogystal, bydd pob aelwyd yn gallu derbyn cyngor am ddim ar faterion fel arbed ynni, dŵr a gwneud y mwyaf o incwm.
Lesbiaid			x	Fel uchod.
Deurywiol			x	Fel uchod.

4.10 A ydych chi'n credu y bydd y polisi hwn yn cael effaith gadarnhaol neu negyddol ar hawliau dynol pobl?

Hawliau Dynol	Cadarnhaol	Negyddol	Dim / Dibwys	Rhesymau dros eich penderfyniad (yn cynnwys tystiolaeth) / Effaith bosibl?
Hawliau Dynol yn cynnwys Deddf Hawliau Dynol a Chonfensiynau'r Cenhedloedd Unedig	x			Mae pwysigrwydd cartrefi yn cael ei gydnabod yng <u>Nghyfamod y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau Economaidd, Cymdeithasol a Diwylliannol</u> , sy'n nodi bod gan bob unigolyn hawl i safon byw ddigonol ar gyfer ei hun a'i deulu,

				<p>gan gynnwys tai digonol.</p> <p>Mae adroddiad Iechyd Cyhoeddus Cymru yn dadlau y byddai buddsoddi mewn atal iechyd gwael yn cael canlyniadau iach ar gyfer ein poblogaeth a manteision pellgyrhaeddol ar gyfer pob agwedd ar ein cymdeithas a'n bywydau.</p> <p>Bydd gwella effeithlonrwydd ynni mewn cartrefi trwy'r cynllun hwn yn cael effaith gadarnhaol ar Hawliau Dynol.</p>
--	--	--	--	---

Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb – Rhan 2

1. Gan adeiladu ar y dystiolaeth a gasglwyd ac a ystyriwyd gennych yn Rhan 1, ystyriwch y canlynol:

1.1 Sut y gallai, neu sut y mae'r polisi'n helpu i wella / hyrwyddo cyfle cyfartal?

Bwriad y cynllun yw gwella effeithlonrwydd ynni cartrefi incwm isel, agored i niwed ledled Cymru. Anelir y cynllun yn benodol at y bobl dlotaf a mwyaf difreintiedig yn gymdeithasol yn ein cymdeithas. Bydd yn cael effaith fanteisiol mewn amrywiaeth eang o feysydd:

- Mynd i'r afael ag afiechyd a'r cynnydd mewn marwolaethau yn y gaeaf
- Gwella cyrhaeddiad addysgol trwy ddarparu lle tawel, cynnes i astudio a lleihau faint o ddiwrnodau ysgol/gwaith sy'n cael eu colli oherwydd salwch
- Mynd i'r afael ag allgáu cymdeithasol trwy ddarparu amgylchedd cynnes sy'n croesawu ffrindiau a chymdogion, a thrwy sicrhau bod arian ar gael ar gyfer bwyd, treuliau bob dydd eraill a gweithgarwch cymdeithasol.
- Creu swyddi a chyfleoedd busnes lleol

Fel y nodwyd yn adroddiad diweddar Iechyd Cyhoeddus Cymru a drafodwyd yn gynharach yn yr asesiad hwn, mae buddsoddi mewn gwelliannau cartrefi yn ffordd gost-effeithiol o atal afiechyd a lleihau anghydraddoldebau iechyd. Gallai arwain at lai o amser yn absennol o'r ysgol neu'r gwaith, mwy o ddefnydd o'r cartref at ddibenion astudio a hamdden, a gwell cydberthnasau rhwng aelodau'r cartref. Mae pob un o'r rhain yn hyrwyddo cyfle cyfartal.

1.2 Sut y gallai / sut y mae'r polisi / penderfyniad yn helpu i ddileu gwahaniaethu anghyfreithlon, aflonyddu neu erledigaeth?

Mae'r cynllun yn debygol o gael effaith fach ar ddileu gwahaniaethu anghyfreithlon, aflonyddu neu erledigaeth.

1.3 Sut y gallai / sut y mae'r polisi'n effeithio ar wella / hyrwyddo cysylltiadau da a chydlyniant cymunedol ehangach?

Mae cynlluniau effeithlonrwydd ynni wedi'u rheoli'n dda yn darparu amrywiaeth eang o fanteision cymunedol, gan gynnwys cymorth ar gyfer swyddi a thwf gwyrdd. Hefyd, defnyddir busnesau bach a chanolig (BBaChau) lleol i osod y gwelliannau, er enghraifft, ers dechrau cynllun presennol Nyth, mae'r holl welliannau effeithlonrwydd ynni wedi'u gosod gan BBaChau o Gymru, ac mae dros 130 o swyddi, prentisiaethau a chyfleoedd hyfforddi wedi'u creu.

Fel y nodwyd uchod, mae gwneud cartrefi'n fwy cynnes yn gwella cydlyniant cymunedol trwy ddarparu lle cynnes a chroesawgar ar gyfer cymdogion.

2. Cryfhau'r polisi

2.1 Os yw'r polisi'n debygol o gael effaith negyddol (niweidiol) ar unrhyw un o'r grwpiau gwarchoddedig neu ar gysylltiadau da, beth yw'r rhesymau am hyn? Pa newidiadau / camau ymarferol allai helpu i leihau neu gael gwared ar unrhyw effeithiau negyddol a nodwyd yn Rhan 1?

Ddim yn berthnasol.

2.2 Os na roddir unrhyw gamau ar waith i ddileu neu liniaru effaith negyddol / niweidiol, rhwch resymau pam.

Ddim yn berthnasol.

3. Monitro, gwerthuso ac adolygu

Sut yr ewch chi ati i fonitro effaith ac effeithiolrwydd y polisi?

Rhestrwch fanylion unrhyw waith dilynol sy'n mynd i gael ei gyflawni mewn perthynas â'r polisi (e.e. ymgynghoriadau, monitro penodol ac ati)

Adolygir perfformiad y cynllun yn rheolaidd trwy dargedau, cyfarfodydd perfformiad â rheolwr y cynllun ac adroddiadau blynyddol. Hefyd, cwblheir gwerthusiad annibynnol yn ystod oes y cynllun.

4. Datganiad

Nid yw'r polisi'n effeithio'n sylweddol ar faterion cydraddoldeb

Y swyddog sy'n cyflawni'r Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb
Enw:
Paul Moyle
Adran:
Yr Amgylchedd a Materion Gwledig
Dyddiad:
Gorffennaf 2017
Llofnod:
P Moyle
Pennaeth Is-adran (Llofnod)
Enw:
Prys Davies
Teitl swydd ac adran:
Dirprwy Gyfarwyddwr, Is-adran Datgarboneiddio ac Ynni
Dyddiad: 23/7/18
Llofnod: <i>Prys Davies</i>
Dyddiad Adolygu: 31 Rhagfyr 2020